COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 30 EBRILL 2018, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | J Gebbie | M Jones |
| RL Penhale-Thomas | B Sedgebeer | JC Spanswick | T Thomas |
| CA Webster | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Giffard a/ac RMI Shaw

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gail Jewell | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |

55. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

56. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU A THROSOLWG 2017-18

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Gwasanaeth Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad gyda'r diben o gyflwyno'r eitemau y disgwylir iddynt gael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor sydd wedi'i drefnu'n amodol i 18 Mehefin 2018, a cheisio cadarnhad o wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer y cyfarfod wedi'i drefnu'n amodol ar ôl hynny ar 26 Gorffennaf 2018. Hefyd, cyflwynodd yr adroddiad restr o ymatebion i sylwadau, argymhellion a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn, ac yn olaf i gyflwyno rhestr o eitemau Blaenraglen Waith bosibl i'w blaenoriaethu'n ffurfiol a dyrannu i bob un o'r Pwyllgorau Craffu a Throsolwg Pwnc.

Atodwyd adborth o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Corfforaethol, fel y gofynnwyd amdano gan yr Aelodau, yn Atodiad A yr adroddiad, a nododd Atodiad B yr adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu a Throsolwg.

Cyfeiriodd y Swyddog Craffu'r Aelodau at eitemau wedi'u blaenoriaethu a'u dirprwyo o'r Pwyllgorau Craffu a Throsolwg Pwnc ar gyfer Mai/Mehefin a Gorffennaf 2018, oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad C yr adroddiad.

Yn dod o drafodaethau ar gynnwys yr adroddiad,

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor â chynnwys yr adroddiad a'r Atodiadau atodedig, yn amodol ar y canlynol:-

- Bod perfformiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r berthynas waith rhyngddynt a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu hychwanegu at y Flaenraglen Waith. Yn y lle cyntaf, gofynnodd yr Aelodau i dderbyn adborth a chasgliadau'r cyfarfodydd sydd wedi trafod y pwnc hwn yn flaenorol, i benderfynu a oes cyfiawnhad i ychwanegu eitemau o'r fath i'r Flaenraglen Waith.

- Mynd ar ganlyn ddyddiad ar gyfer y cyfarfod wedi'i gau lle roedd Gwastraff ar yr agenda, i alluogi yr Aelodau i weld y Contract heb ei olygu (ar gyfer Gwastraff). Hefyd tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen i symud yr eitem ar y Gwasanaethau Gwastraff i gyfarfod yn y dyfodol, er mwyn galluogi anfon gwahoddiadau i Kier er mwyn rhoi iddynt gymaint o rybudd â phosibl am ddyddiad y cyfarfod, er mwyn iddynt allu trefnu i gynrychiolydd o'r Cwmni ddod i'r cyfarfod.

57. BARGEN DDINESIG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, mewn ymateb i'r Pwyllgor yn gofyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno yn adroddiad heddiw ar bwnc Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Dywedodd y Cadeirydd i'r Aelodau na allai'r Cynghorydd Peter Fox o Gyngor Sir Fynwy, sydd wedi'i wahodd i gyfarfod heddiw, ddod i gyfarfod heddiw, a gallai'r Prif Weithredwr ond ddod am tua hanner awr gan fod ganddo apwyntiad brys i fynd iddo.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynghylch hyn, gan y teimlon nhw fod angen i'r ddau Wahoddedig fod yn bresennol yn y cyfarfod ar yr un pryd â Gwahoddedigion allweddol eraill, er mwyn iddynt allu ymateb i gwestiynau'r Aelodau, ar yr hyn oedd yn broject miliynau o bunnoedd pwysig iawn.

Yng ngolwg hyn, cytunodd yr Aelodau trwy bleidlais unfrydol gyda'r camau gweithredu canlynol:-

Argymhellion:

- Cytunodd y Pwyllgor i'r eitem ar y Fargen Ddinesig gael ei hoedi i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol, a fydd yn sicrhau lefel briodol o bresenoldeb yn y cyfarfod hwnnw gan Wahoddedigion, er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei ddyrannu ar gyfer yr eitem a bod cwestiynau'r Aelodau yn y cyfarfod yn cael eu gofyn a bod ymateb llawn yn cael ei roi iddynt.
- Teimlodd Aelodau fod hyn yn hanfodol yng ngolwg pwysigrwydd y pwnc.
- Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor hefyd fod llythyr yn cael ei anfon at y Prif Weithredwr, gan dynnu sylw'n ffurfiol at eu siom wedi dysgu bod llai o Wahoddedigion wedi dod i'r cyfarfod.

58. GŴYL DDYSGU – HAF LLAWN GWEITHGAREDDAU A CHANLYNIADAU A RAGWELIR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth i'r Teulu adroddiad gwybodaeth a roddodd wybod i'r Aelodau am weithgareddau wedi'u cynllunio ar gyfer yr Ŵyl Ddysgu a'r canlyniadau sy'n dod ohonynt.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol yn y dyfodol, pe byddai'r digwyddiad agoriadol yn llwyddiannus, i gynnwys busnesau lleol er mwyn sicrhau mwy o gymorth ar gyfer y digwyddiad wrth fynd ymlaen. Byddai hyn yn cael ei wneud mewn dwy ffordd, sef byddai'r Cyngor hefyd yn cael gwybod am yr hyn y byddai ei angen ar fusnesau lleol gan yr Awdurdod o ran dysgu.

Teimlodd Aelod fod yr adroddiad yn ddigon pwysig iddo fod yn fwy nag adroddiad Gwybodaeth, ac y dylid gwahodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth i'r Teulu gael ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn ymateb i gwestiynau ar lwyddiant neu ganlyniad arall y project.

Cytunodd y Cadeirydd i hyn gan ychwanegu y byddai o fudd i'r Aelodau gael golwg ar wybodaeth ystadegol benodol ar lwyddiant (neu ganlyniad arall) y project.

Ychwanegodd Aelod ymhellach fod swm mawr o arian wedi'i ymrwymo i'r project felly dylai canlyniadau ohono fod yn amodol ar werthusiad. Gan gyfeirio at baragraff 4.4 yr adroddiad, nododd yr Aelod y byddai 120 o ddisgyblion o wahanol ysgolion yn rhan o'r gweithgareddau cyn yr Ŵyl Ddysgu, a gobeithiodd y byddai cyferbyniad ymhlith disgyblion sy'n cael eu dewis h.y. gan gynnwys rhai o deuluoedd dan anfantais ac ati. Ychwanegodd fodd bynnag fod y swm hwn yn ffurfio dim ond tua 1% o'r boblogaeth myfyrwyr. Roedd sawl amheuaeth ganddi o ran pa ganlyniadau, nodau, cyflawniadau ac amcanion clir fyddai'n dod o'r project, heblaw am y rhain sy'n ymwneud ag arfer da.

Dywedodd y Swyddog Craffu, fel mae'r Aelodau'n ymwybodol efallai, fod BREP hefyd wedi gwneud argymhellion penodol mewn perthynas â'r Fenter Ŵyl Ddysgu, a'u bod yn aros am y ymateb i'r rhain gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro dros Addysg a Chymorth i'r Teulu.

Ychwanegodd aelod o BREP fod y corff hwn hefyd yn awyddus i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i'r Teulu edrych ar noddi mentrau ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol ar gyfer yr Ŵyl Ddysgu os cytunir i barhau â'r project yn y dyfodol.

Dywedodd Aelod hefyd fod angen nodi goblygiadau ariannol y project yn glirach.

<u>Casgliadau:</u>

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr argymhellion wedi'u gwneud gan y Panel Gwerthuso ac Ymchwilio'r Gyllideb (BREP) mewn perthynas â'r eitem hon a gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Gyfarwyddiaeth wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau unrhyw nawdd gan fusnesau lleol ar gyfer y digwyddiadau gan nad oedd cyfeiriad at hyn yn adran ariannol yr adroddiad.
- 
- Pwysleisiodd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd rhan busnesau lleol yn y digwyddiad i roi eglurder mwy ynghylch y sgiliau y mae eu hangen gan gyflogwyr i sicrhau cyflogadwyedd myfyrwyr yn y dyfodol.

- Eto, gan gyfeirio at argymhelliad BREP ynghylch yr angen i ysgolion i ddewis ystod eang o ddisgyblion i gymryd rhan yn y digwyddiad, i sicrhau bod amrywiaeth o farn yn cael ei hymgorffori, mae'r Pwyllgor yn nodi nad oedd sôn am sut y byddai'r myfyrwyr yn cael eu henwebu.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ran symiau'r arian ar gyfer yr ŵyl ddysgu a gofynnon nhw a fyddai'r £15k yn cael ei dynnu o'r £65k y gwnaethpwyd cais amdano gan dynnu sylw at yr angen i wneud hyn yn glirach yn yr adroddiad.

- Mae'r Aelodau yn argymell bod adroddiad yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i roi gwerthusiad o'r Ŵyl Ddysgu, i nodi pa gyflawniadau gafodd eu cyflawni a rhoi ystadegau sy'n rhoi tystiolaeth o lwyddiant ar ôl y digwyddiad.

59. <u>GRŴP CRAFFU AR Y CYD CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad Gwybodaeth i roi i'r Pwyllgor ddiweddariad blynyddol ar waith Grŵp Craffu ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.

Amlinellodd y Swyddog Craffu yr adroddiad a ddechreuodd gyda rhywfaint o wybodaeth gefndir am sut cafodd y Gweithgor ei sefydlu, gan gynnwys ei rôl a'i gyfrifoldebau.

Cefnogodd y Gweithgor Gydbwyllgor Consortiwm Canolbarth De, corff sy'n atebol i'w awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, h.y. Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Chyngor Bro Morgannwg, ac mae'r CCC yn gyfrifol am wella ysgolion ar eu rhan.

O ganlyniad i'r uchod, y llynedd cafodd Gweithgor ar y Cyd ei gyflwyno, gyda phob Cyngor yn cymeradwyo ei sefydlu yn ogystal â'i Gylch Gorchwyl. Byddai'r Grŵp yn ystyried materion megis yr eitemau sefydlog canlynol:-

1. Cynnydd y Consortiwm yn erbyn ei gynllun busnes 3 blynedd ar sail ranbarthol;
2. Tueddiadau perfformiad rhanbarthol;
3. Rhannu arfer craffu gorau ledled y rhanbarth

Parhaodd trwy ddweud i'r Grŵp, trwy ystyriaeth fanwl, hefyd nodi sawl pwnc rhanbarthol roedd werth eu hystyried yn eu barn, ac felly roedd y rhain wedi'u hychwanegu at Flaenraglen Waith y Grŵp wedi'i hatodi at yr adroddiad er gwybodaeth.

Tynnodd yr adroddiad hefyd at y Consortia ledled Cymru i gyd hefyd am gydweithio er mwyn sefydlu Cynllun Gwaith cytunedig gyda'r bwriad o rannu arfer gorau.

<u>Casgliadau:</u>

- Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

- Nododd y Pwyllgor hefyd fod cyfarfodydd Grŵp Craffu ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De fel arfer yn cyd-fynd â chyfarfodydd y Cyngor wedi'u trefnu, ac o ganlyniad i hyn, gofynnodd fod hyn yn cael ei ystyried wrth drefnu cyfarfodydd yn y dyfodol.

60. <u>EITEMAU BRYS</u>

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:15